## Cyngor Bro Morgannwg

## Cyfansoddiad Fforwm Cyllideb Ysgolion (diwygiwyd 11.06.25)

1. **Cyflwyniad**

Mae'n ofynnol i bob Cyngor sefydlu Fforwm Cyllideb Ysgolion yn unol ag adran 47A Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliadau Fforwm Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2003.

2. **Aelodaeth**

### 2.1. Maint y fforwm

**2.1.1.** Rhaid i'r fforwm gynnwys o leiaf 15 aelod i sicrhau nad yw aelodaeth y fforwm yn rhy gyfyngedig, a bod buddiannau ysgolion yn cael eu cynrychioli'n briodol.

**2.1.2.** Er mwyn hwyluso trafodaethau adeiladol, bydd y fforwm yn cael ei gadw i faint hylaw o ddim mwy na 23.

**2.1.3.** Dylai'r fforwm gynrychioli barn cyrff llywodraethu a phenaethiaid. Felly, bydd y rhan fwyaf o'r fforwm yn cynnwys aelodau ysgol sy'n cael eu hethol i gynrychioli cyrff llywodraethu neu benaethiaid ysgolion a gynhelir.

**2.1.4.** Ni all mwy na 25% o'r fforwm fod yn aelodau nad ydynt yn aelodau ysgol.

### 2.2. Ethol a Phenodi Aelodau Ysgol

**2.2.1.** Rhaid i aelodau ysgol fod yn benaethiaid neu'n llywodraethwyr ond nid yw'n ofynnol cynnwys nifer cyfartal o’r ddau. Er mwyn sicrhau bod cynifer o ysgolion â phosibl yn cael eu cynrychioli ar y fforwm lle bo hynny'n bosibl, ni ddylai cynrychiolwyr llywodraethwyr a chynrychiolwyr penaethiaid fod o'r un ysgol. Ni fydd hyn yn berthnasol i ysgolion arbennig, ysgolion ffydd uwchradd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg uwchradd, gan mai dim ond un ysgol sydd ym mhob categori.

**2.2.2.** Bydd aelodau ysgol yn cael eu henwebu ar gyfer aelodaeth ar Fforwm y Gyllideb. Bydd llywodraethwyr yn cael eu henwebu gan Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro a bydd Penaethiaid yn cael eu henwebu gan grwpiau clwstwr yr ysgolion.

**2.2.3.** Bydd gan y fforwm o leiaf un aelod ysgol o'r categorïau canlynol:

- Ysgolion arbennig
- Ysgolion cynradd
- Ysgolion uwchradd a neu ysgolion 3-19 oed
- Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu wirfoddol a reolir
- Ysgolion Cymraeg

**2.2.4.** Rhaid cynrychioli'r tri chlwstwr daearyddol ffurfiol ar y fforwm, sef

- Clwstwr Penarth
- Clwstwr y Barri
- Clwstwr y Fro Wledig
- Nid oes gofyniad i gynrychioli clystyrau daearyddol anffurfiol pellach ar wahân.

**2.2.5.** Rhaid i o leiaf un ysgol fod yn llywodraethwr ysgol.

### 2.3. Penodi Aelodau Nad Ydynt yn Aelodau Ysgol

**2.3.1.** Mae'r terfyn o 25% y cyfeirir ato yn 2.1.3 yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod.

**2.3.2.** Yr unig gynrychiolwyr o'r awdurdod lleol sydd â hawliau pleidleisio ar y fforwm yw'r rhai a gynhwysir yn yr aelodaeth nad ydynt yn aelodau ysgol.

**2.3.3.** Bydd cyfansoddiad yr aelodaeth nad ydynt yn aelodau ysgol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol ac undebau athrawon neu undebau llafur eraill sydd ag aelodau yng Nghymru.

**2.3.4.** Mae rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol hysbysu pob un o'i ysgolion a gynhelir am fanylion unrhyw aelodau nad ydynt yn aelod ysgol a benodir i'r fforwm o fewn mis i'r penodiad gael ei wneud.

**2.4. Aelodau Dirprwyol**

**2.4.1.** Gall aelodau enwebu dirprwy i fynychu cyfarfodydd y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn eu habsenoldeb

**2.5. Cyfnod Swydd**

**2.5.1.** Argymhellir bod y cyfnod swydd ar gyfer aelodaeth yn dair blynedd lle bo hynny'n bosibl, ond efallai na fydd bob amser yn bosibl cyfyngu aelodaeth i dair blynedd wrth gydymffurfio ag adran 2.2.3 uchod a sicrhau bod pob categori'n cael ei gynrychioli. Yn benodol ysgolion arbennig ac ysgolion sefydledig.

**2.5.2.** Dylai grwpiau clwstwr ysgolion adolygu'r holl gynrychiolwyr Penaethiaid ac wedi cyfnod o dair blynedd yn y swydd, dylent naill ai ethol cynrychiolydd clwstwr newydd, neu ailethol y cynrychiolydd presennol.

**2.5.3.** Bydd cyfnod swydd aelodau nad ydynt yn aelod ysgol yn cael ei bennu gan y meini prawf cymhwysedd a ddilynwyd wrth eu henwebu i'r fforwm. Aelodau nad ydynt yn aelod ysgol yw

- Yr Aelod Cabinet dros Addysg
- Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau
- Un Aelod Craffu Dysgu a Diwylliant
- Dau Aelod o Undeb Llafur

**2.5.4.** Bydd penodiad yr aelodau fforwm a hyd eu penodiad yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

**2.6. Tynnu Aelodau o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion**

**2.6.1.** Os nad yw aelod o ysgol yn dal swydd pennaeth neu lywodraethwr yr ysgol mwyach, sef y rheswm pam y cafodd ei benodi i'r fforwm, bydd ei benodiad yn cael ei derfynu.

**2.6.2.** Yn achos aelodau nad ydynt yn aelod ysgol, bydd eu penodiad yn dod i ben pan na fyddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a ddilynwyd wrth eu henwebu i'r fforwm.

### 2.7. Cyfansoddiad Fforwm Ariannu Ysgolion Bro Morgannwg

**2.7.1.** Mae'r tabl isod yn nodi cyfansoddiad Cyngor Bro Morgannwg. Nodir y canlynol:

- Isafswm aelodaeth yw 15 aelod ac felly ni ddylid llenwi pob un o'r 21 swydd yn y tabl isod bob amser
- Yn amodol ar gydymffurfio â pharagraffau 2.1.3, 2.1.1 a 2.2.3; Gall un aelod gynrychioli mwy nag un maes fel a nodir yn y tabl isod. (Er enghraifft, gall pennaeth gynrychioli ysgolion cynradd ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir)
- Dylai cynrychiolaeth ysgolion fod yn gyfartal ar draws clystyrau lle bo hynny'n bosibl

| **Cynrychiolaeth** | **Nifer** | **Corff Enwebu** |
|---|---|---|
| Penaethiaid Ysgolion Uwchradd | 3 | Grwpiau Clwstwr Penaethiaid |
| Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd | 3 | Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro |
| Penaethiaid Ysgolion Cynradd | 3 | Grwpiau Clwstwr Penaethiaid |
| Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd | 3 | Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro |
| Pennaeth Ysgol Arbennig | 1 | Ysgol Arbennig |
| Llywodraethwr Ysgol Arbennig | 1 | Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro |
| Pennaeth Cyfrwng Cymraeg Uwchradd | 1 | Ysgolion Cyfrwng Cymraeg |
| Pennaeth Cyfrwng Cymraeg Cynradd | 1 | Ysgolion Cyfrwng Cymraeg |
| Pennaeth Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir / Ysgol Wirfoddol a Reolir Gynradd | 1 | Cynrychiolwyr Ysgolion Esgobaethol neu Ffydd |
| Pennaeth Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir / Ysgol Wirfoddol a Reolir Uwchradd | 1 | Cynrychiolwyr Ysgolion Esgobaethol neu Ffydd |
| **Is-gyfanswm Aelodau Ysgol** | **18** | |
| Undebau Llafur | 2 | Pwyllgor Ymgynghorol Addysg |
| Aelod Cabinet dros Addysg | 1 | dd/b |
| Aelod Craffu Dysgu a Diwylliant | 1 | Y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant |
| Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau | 1 | dd/b |
| **Is-gyfanswm Aelodau Nad Ydynt yn Aelod Ysgol** | **5** | |
| **CYFANSWM AELODAU** | **23** | **(uchafswm)** |

## 3. Cyfarfodydd a Thrafodion y Fforwm Cyllideb Ysgolion

### 3.1. Â Chworwm

**3.1.1.** Mae'r fforwm â chworwm os yw o leiaf ddeugain y cant o gyfanswm yr aelodaeth yn bresennol yn y cyfarfod

### 3.2. Cadeirydd

**3.2.1.** Rhaid i Gadeirydd y fforwm gael ei ethol gan y fforwm

**3.2.2.** Bydd cadeiryddion yn dal swydd blwyddyn (ond gellir eu hailbenodi)

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## 4. Swyddogaethau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion

### 4.1. Ymgynghoriad ar Faterion Ariannol

**4.1.1.** Rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r fforwm yn flynyddol ar

- Swyddogaethau ynglŷn â'u cyllideb ysgolion;
- Unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i Gynllun Ariannu Teg y Cyngor ar gyfer Ysgolion

**4.1.2.** Caiff yr Awdurdod Lleol ymgynghori â'r fforwm ar faterion eraill sy'n ymwneud ag ariannu ysgolion.

### 4.2. Ymgynghoriad ar y Fformiwla Ariannu Ysgolion

**4.2.1.** Rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r fforwm yn flynyddol ar: -

- Unrhyw newidiadau arfaethedig o ran y Fformiwla Ariannu Ysgolion
- Effaith ariannol debygol newid o'r fath

**4.2.2.** Rhaid i ymgynghoriad o dan baragraff 4.2.1 gael ei gynnal mewn da bryd i ganiatáu i'r safbwyntiau a fynegir gael eu hystyried cyn penderfynu'n gychwynnol ar gyfrannau cyllidebau ysgolion ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.